# Ymateb Sefydliadol

**Teitl yr adroddiad:** Adolygiad o Strategaeth Ddigidol: Cyngor Sir Ynys Môn

**Dyddiad cwblhau:**

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb sefydliadol<br>Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y camau arfaethedig mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad Cwblhau<br>Nodwch erbyn pryd bydd y camau arfaethedig wedi'u cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | **Cryfhau'r sylfaen dystiolaeth**<br>Er mwyn helpu i sicrhau bod ei strategaeth ddigidol nesaf yn wybodus a bod ei adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol, wrth ddatblygu ei strategaeth dylai'r Cyngor ddefnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys<br>• cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y strategaeth ddigidol yn ogystal â thynnu ar farn rhanddeiliaid o ffynonellau presennol;<br>• amcanion a strategaethau cyrff cyhoeddus eraill, a nodi cyfleoedd i gydweithio;<br>dadansoddiad pellach o dueddiadau'r presennol a'r dyfodol (gweler ein meini prawf archwilio ar gyfer C.1.1 a C1.2 yn Atodiad 1 am rai enghreifftiau o'r hyn y gallai hyn ei gynnwys). | Mae'r Cyngor wedi – datblygu ei amserlen er mwyn cynhyrchu strategaeth ddigidol sydd wedi dechrau ar adeg archwilio ac mae wedi cynnwys<br>• ymgysylltiad gan randdeiliaid ar lefelau gwahanol – tîm Digidol CLILC, SOCATIM, rhwydwaith TG Gogledd Cymru, yr uwch dîm, y tîm corfforaethol, Fforwm Môn (timau rheoli gwasanaethau), Rheolwr Busnes (pob gwasanaeth), y cyhoedd. Mae'r tîm TG hefyd wedi casglu adborth gan gwsmeriaid ynghylch ymholiadau'r desg gymorth.<br>• Mae cydweithio eisoes yn digwydd yn y maes hwn gydag awdurdodau lleol eraill, yn rhanbarthol yng Nghymru ac yn is-ranbarthol, gan rannu arfer da ac adnoddau. | Mae drafft o'r strategaeth ddigidol wedi'i chwblhau, ac ar hyn o bryd mae'n destun llywodraethant mewnol, fydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2024<br><br>Mae'r ymgysylltiad a'r cydweithio yn parhau trwy'r fforymau gwahanol sydd wedi'u nodi. | **Pennaeth Proffesiwn, Adnoddau Dynol a Thrawsnewid** |
| **A2** | **Nodi goblygiadau adnoddau**<br>Er mwyn helpu i sicrhau bod modd cyflawni ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor nodi'r goblygiadau o ran adnoddau yn y tymor byr a'r hirdymor o'i chyflawni ynghyd ag unrhyw arbedion effeithlonrwydd a fwriedir. | Gwnaed cais i bob gwasanaeth ddarparu eu blaenoriaethau technoleg arfaethedig ar gyfer y 5 mlynedd nesaf er mwyn llywio'r strategaeth.<br><br>Mae meini prawf sgorio wedi'i ddatblygu er mwyn gallu blaenoriaethu prosiectau newydd. Bydd y Strategaeth Ddigidol yn cael ei chefnogi | **Ebrill 2024, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25** | **Rheolwr y Tîm TG** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gan gynllun gweithredu flynyddol fydd yn adnabod meini prawf llwyddiant, sy’n cynnwys adnoddau a chanlyniadau. | | |
| **A3** | **Trefniadau ar gyfer monitro gwerth am arian**<br>Er mwyn gallu monitro gwerth am arian ei strategaeth ddigidol nesaf, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau ar gyfer monitro ei gynnydd a'i effaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. | Bydd y gwaith o fonitro’r strategaeth ddigidol wedi’i gynnwys yn agenda’r Bwrdd Trawsnewid (Moderneiddio) | Bydd cyfarfodydd y Bwrdd Trawsnewid yn cael eu cynnal bob deufis | **Rheolwr y Tîm TG** |